



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad	Llun	Nodiadau
------------	------	----------

Luc 2: 21-40



- 1 Pan oedd pedwar deg diwrnod wedi mynd heibio ers i Iesu gael ei eni, roedd y cyfnod o buro mae Cyfraith Moses yn sôn amdano wedi dod i ben. Felly aeth Joseff a Mair i'r deml yn Jerwsalem i gyflwyno eu mab cyntaf i'r Arglwydd.



- 2 Roedd rhaid mynd ag anifail i'w aberthu. Roedd pobl cyfoethog yn aberthu oen.



- 3 Ond roedd pobl tlawd fel Mair a Joseff yn aberthu pâr o durturod neu ddwy golomen.



-
- 4 Roedd dyn o'r enw Simeon yn byw yn Jerwsalem — dyn da a duwiol. Roedd dylanwad yr Ysbryd Glân yn drwm ar ei fywyd, ac roedd yn disgwyl yn frwd i'r Meseia ddod i helpu Israel. Roedd yr Ysbryd Glân wedi dweud wrtho y byddai'n gweld y Meseia cyn iddo fe farw.



-
- 5 Felly pan ddaeth rhieni Iesu i'r deml, dyma Simeon yn cymryd y plentyn yn ei freichiau a dechrau molï Duw fel hyn:



-
- 6 O Feistr Sofran! Gad i mi, dy was, bellach farw mewn heddwch!



-
- 7 Dw i wedi gweld yr Achubwr gyda fy llygaid fy hun. Rwyf wedi ei roi i'r bobl i gyd; yn olau er mwyn i genhedloedd eraill allu gweld, ac yn rheswm i bobl Israel dy foli di." Roedd Mair a Joseff yn rhyfeddu at y pethau oedd yn cael eu dweud am Iesu.



-
- 8 Yna dyma Simeon yn eu bendithio nhw, a dweud wrth Mair, y fam: "Bydd y plentyn yma yn achos cwmp i lawer yn Israel ac yn fendith i eraill."



-
- 9 Roedd gwraig o'r enw Anna, oedd yn broffwydes, yn y deml yr un pryd. Roedd hi'n 84 oed.



-
- 10 Daeth at Mair a Joseff pan oedd Simeon gyda nhw a dechrau moli Duw a diolch iddo.



-
- 11 Roedd yn siarad am Iesu gyda phawb oedd yn edrych ymlaen at ryddid i Jerwsalem.



-
- 12 Pan oedd Joseff a Mair wedi gwneud popeth roedd Cyfraith yr Arglwydd yn ei ofyn, dyma nhw'n mynd yn ôl adre i Nasareth yn Galilea.



-
- 13 Tyfodd y plentyn yn fachgen cryf a doeth iawn, ac roedd hi'n amlwg bod ffafr Duw arno.



14 Cyfieithwyd gan
www.beibl.net

